Rhif: **WG25080**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Canllawiau mewn perthynas â Rhan 9 o'r Ddeddf, ar Gydweithrediad a Phartneriaeth

Rheoliadau a'r canllawiau statudol mewn perthynas â Rhan 9 o'r Ddeddf, ar Gydweithrediad a Phartneriaeth

Dyddiad cyhoeddi: **8 Mai 2015**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **31 Gorffennaf 2015**

OGL ISBN Digidol 978 1 4734 3477 6 © Hawlfraint y Goron 2015

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar y rheoliadau a'r codau ymarfer sy'n cael eu gwneud i gefnogi awdurdodau lleol a'u partneriaid i gyflawni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon, a'i dychwelyd atom erbyn hanner nos ar y dyddiad cau. Dylid anfon yr ymateb i'r cyfeiriad isod:

Y Gangen Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Neu mae'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan (http://wales.gov.uk/consultations/?lang=cy) a gallwch ei dychwelyd atom trwy'r e-bost i: sswbimplementation@wales.gsi.gov.uk.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gallwch ofyn am fersiynau o'r ddogfen hon mewn fformat hygyrch, gan gynnwys MS Word, print bras neu Braille, neu mewn ieithoedd eraill.**

Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu:
http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/guidance1/services/?lang=cy

Gweithredu'r Weledigaeth Adroddiad y comisiwn annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru:
http://www.icssw.org/vision/?lang=cy

Adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Ddeddfwriaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion:
http://lawcommission.justice.gov.uk/areas/adult-social-care.htm

Ymgynghoriad ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru):
http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/bill/?lang=cy

Taflenni Ffeithiau Llywodraeth Cymru ar Wybodaeth, Cyngor a Chymorth, Asesu, Cynllunio Gofal a Gofalwyr:
http://wales.gov.uk/topics/health/socialcare/act/resources/?lang=cy

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents/enacted

Y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth (dogfen waith):
http://wales.gov.uk/topics/health/socialcare/well-being/?lang=cy

Datganiad llesiant ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth:
http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/strategies/statement/?lang=cy

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

sswbimplementation@wales.gsi.gov.uk

Cyfeiriad:

Y Gangen Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: sswbimplementation@wales.gsi.gov.uk

Ffôn: 029 20 82 6498

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Y Rhagair

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014, yn creu system gyfreithiol newydd i wasanaethau cymdeithasol. Mae'n creu fframwaith sy'n dwyn ynghyd ac yn moderneiddio'r gyfraith ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, gan gynyddu'r pwyslais ar gamau ataliol, gan ddod â phobl yn agosach at benderfyniadau am y gwasanaethau sy'n effeithio arnynt, a chan fynd i'r afael â heriau newid economaidd a demograffig.

Bydd llawer ohonoch yn ymwybodol o'r egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus a drafodwyd yn eang yn ystod 2014. Mae'r newid diwylliannol tuag at yr ymyriadau angenrheidiol lleiaf posibl, ‘gwnewch yr hyn y gallwch chi yn unig ei wneud’, hyrwyddo tegwch ac ailfodelu'r berthynas rhwng y defnyddiwr a'r darparwr ar sail cydgynhyrchu wedi ei groesawu'n eang mewn lleoliadau gofal iechyd. Fodd bynnag, mae'r egwyddorion hyn yn ymestyn yn llawer ehangach ac yn cyffwrdd â chraidd gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, gan adlewyrchu'r canolbwynt ar lais y dinesydd, rheolaeth gan ddefnyddwyr a chydgynhyrchu a nodwyd yn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy*. Yr her ym maes gofal cymdeithasol, fel ym maes gofal iechyd, yw datblygu modelau gwasanaeth cynaliadwy, o ran adnoddau ariannol ac adnoddau'r gweithlu, i'n helpu i reoli'r galw yn effeithiol a bod yn gyfartal ac yn deg i bawb. Dylem ymdrechu i hyrwyddo annibyniaeth ac nid dibyniaeth ac, a defnyddio ymadrodd a ddefnyddiwyd gennym flynyddoedd lawer yn ôl, mae angen inni hefyd ystyried sut rydym yn ychwanegu ‘bywyd at flynyddoedd’ nid dim ond ‘blynyddoedd at fywyd’. Drwy gymhwyso'r egwyddorion hyn i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ein nod yw cyflawni system sy'n addas ar gyfer anghenion pob defnyddiwr.

Bydd y fframwaith statudol newydd ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol yn cynnwys tair rhan. Mae'r rhan gyntaf, y Ddeddf ei hun, eisoes yn ei lle. Bydd y ddwy ran arall yn cynnwys rheoliadau ar y naill law a chodau ymarfer a chanllawiau statudol ar y llaw arall. Bydd y rhain yn cyflenwi’r manylion ac yn helpu’r rhai sy’n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf i ddeall sut y dylent gyflawni’r rhain. Fe ymgynghorwyd ynghylch y **gyfres gyntaf** o’r rheoliadau hyn rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Chwefror 2015 ac mae gwaith yn mynd rhagddo yn awr i baratoi’r rheoliadau terfynol yn seiliedig ar y gwaith yma. Bydd y rheoliadau hyn yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad o fis Mai eleni.

Cafodd bwriad polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r prif grwpiau o bwerau i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf ei nodi mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, ar 30 Ionawr 2014. Mae'r rheoliadau a'r codau a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon yn troi'r bwriad polisi hwn yn ffurf bendant ac yn helpu i gyflenwi'r ddwy ran arall o'r fframwaith statudol sy'n weddill.

Er mwyn cyrraedd y pwynt hwn, mae fy swyddogion wedi gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid drwy gyfres o grwpiau technegol i ddatblygu a mireinio manylion ein polisi ar gyfer rheoliadau, codau ymarfer a chanllawiau statudol. Hoffwn roi teyrnged i'r rhanddeiliaid hynny, a diolch iddynt am eu cyfraniad gwerthfawr at y broses o wireddu'r Ddeddf.

Mae’r **ail gyfres** hon o is-ddeddfwriaeth ar gael ar gyfer ymgynghori o 8 Mai 2015; bydd yr ymgynghoriad hwn yn rhedeg am 12 wythnos tan 31 Gorffennaf. Mae’r rheoliadau, y codau ymarfer a’r canllawiau statudol hyn wedi’u hategu unwaith eto gan waith ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith grwpiau technegol a chynghori. Bydd y gyfres hon yn creu system sy'n sicrhau canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal a phlant sy’n cael eu lletya, yn ysgogi cydweithredu rhanbarthol ac yn gweithredu system o godi ffioedd, asesiadau ariannol a thalu am ofal. Bydd yn cefnogi trefn ar gyfer gwneud sylwadau a darparu eiriolaeth, ac yn mynd i'r afael â'r materion sy’n deillio o fethiant darparwr.

Yn unol â Chod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth, rwyf yn ymrwymedig i gynnal asesiad effaith rheoleiddiol llawn ar gyfer y rheoliadau i'w gwneud o dan y Ddeddf. Byddaf wrth gwrs yn defnyddio'r dystiolaeth a gesglir fel rhan o'r broses ymgynghori hon i lywio'r asesiad hwn a gobeithio y byddwch chi’n achub ar y cyfle a gynigir drwy ein cwestiynau ymgynghori i gyfrannu at hyn.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus llawn bydd y rheoliadau hyn, eu codau ymarfer cysylltiedig a'r canllawiau statudol yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad yn ystod gaeaf 2015.

Mae'r gwaith o weithredu’r Ddeddf - a thrwyddi'r system newydd ar gyfer gofal cymdeithasol sy’n ofynnol yn ôl y fframwaith Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy - yn mynd y tu hwnt i wneud is-ddeddfwriaeth, er mor bwysig yw hyn. Mae camau gweithredu’n digwydd yn barod i gefnogi parodrwydd y gweithlu, i helpu i godi ymwybyddiaeth ymhlith y boblogaeth ehangach, ac i

gefnogi gweithgarwch gweithredu rhanbarthol allweddol. Fel enghraifft o'r gwaith paratoi hwn, mae Cyngor Gofal Cymru, fel y corff arweiniol ar gyfer datblygu'r gweithlu, yn arwain ar ddatblygu a gweithredu strategaeth dysgu a datblygu genedlaethol.

Er mwyn cefnogi'r broses o weithredu'r Ddeddf a pharatoi ar ei chyfer yn 2013/14 a 2014/15 rydym wedi trefnu bod y grant *Cyflawni Trawsnewid* ar gael i bartneriaethau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r cyllid hwn yn galluogi llywodraeth leol a'i phartneriaid i roi gofynion y Ddeddf newydd ar waith. Ar 27 Chwefror eleni cyhoeddais y byddai Llywodraeth Cymru yn dyblu'r cyllid sydd ar gael trwy'r grant cyflawni trawsnewid i £3m yn 2015/16.

Mae'r gwaith a ddisgrifir yma yn adeiladu ar y consensws cenedlaethol sydd gennym ar gyfer y newidiadau y mae angen inni eu gwneud. Mae'r holl agweddau allweddol ar ddatblygu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy yn cael eu cynnal gyda chyfranogiad agos dinasyddion ac arweinyddiaeth gref gan lywodraeth leol, y GIG a darparwyr yn y sector preifat a'r trydydd sector. Byddaf yn parhau i weithio gyda'r Grŵp Arweiniad Cenedlaethol, y Fforwm Partneriaeth a Phanel y Dinasyddion i gynorthwyo hyn, a sicrhau uchelgais newydd a rennir bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael lle canolog a chadarn yn ein rhaglen ar gyfer newid.

**Mark Drakeford AC**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

## Yr ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar y rheoliadau a'r canllawiau statudol sydd wedi eu datblygu er mwyn helpu awdurdodau lleol a'u partneriaid i weithredu Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (“y Ddeddf”).

Bydd y rheoliadau’n cael eu gwneud o dan yr adrannau priodol o'r Ddeddf, a chyhoeddir y canllawiau o dan adran 169 o'r Ddeddf, sy’n caniatáu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar drefniadau partneriaeth a wneir o dan reoliadau o dan adran 166.

Mae’r ddogfen ymgynghori hon yn ymwneud â’r rheoliadau a chanllawiau statudol drafft mewn perthynas â **chydweithrediad a phartneriaeth** o dan Ran 9.

## Beth yw’r sefyllfa ar hyn o bryd?

Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014. Mae'r Ddeddf yn sail i fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r canolbwynt bellach yn troi at weithredu'r Ddeddf. Mae Gweinidogion Cymru wedi egluro eu bod yn dymuno i elfennau craidd y fframwaith statudol newydd fod yn eu lle ar gyfer mis Ebrill 2016, pan fydd y Ddeddf yn cael ei gweithredu.

Bydd y fframwaith statudol yn cynnwys tair prif elfen, sef y Ddeddf ei hun, rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, a chodau ymarfer/canllawiau statudol. Bydd y tair elfen hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio'r fframwaith y bydd gwasanaethau cymdeithasol a phartneriaid perthnasol yn gweithredu ynddo o fis Ebrill 2016.

Mae’r rheoliadau, y codau a’r canllawiau statudol wedi cael eu datblygu mewn dwy gyfres, trwy broses ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol. Cyflwynir y rheoliadau, y canllawiau statudol a’r codau ymarfer a ddatblygwyd yng nghyfres dau yn awr i randdeiliaid ledled Cymru er mwyn cael eu cyfraniad.

## Y dystiolaeth ar gyfer newid

Nodwyd y dystiolaeth ar gyfer newid yn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu*[1] ac yn yr ymgynghoriad ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru), a nododd egwyddorion allweddol y Bil.

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn ganolog i fywyd cyhoeddus Cymru. Caiff

[1] Gweler **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

150,000 o bobl ifanc, pobl hŷn a phobl anabl gymorth ganddynt bob blwyddyn i gyflawni eu potensial ac i'w helpu i fod yn ddiogel. Darperir llawer o'r gwasanaethau hyn mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys gwasanaethau tai, iechyd ac addysg. Mae'r gymdeithas yn newid a rhaid i wasanaethau cymdeithasol newid mewn ymateb i hyn. Bu newid yn nisgwyliadau'r cyhoedd o wasanaethau cymdeithasol a bydd hyn yn parhau, o ganlyniad i newid demograffig a newidiadau yn ein cymdeithas. Mae angen i wasanaethau cymdeithasol addasu ac ymateb i bob un o'r rhain.

At hynny, mae'r galw yn cynyddu ar draws gwasanaethau cymdeithasol, ond mae'r rhagolwg ariannol ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus yn un anodd. Er ein bod wedi diogelu gwariant ar wasanaethau cymdeithasol, mae angen inni wneud newid mwy sylfaenol na dim ond mynd ar drywydd y mesurau effeithlonrwydd amlwg er mwyn inni sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy. Mae ein Papur Gwyn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* yn nodi rhaglen o newid i ateb yr heriau hyn yn seiliedig ar y naw egwyddor ganlynol:

- Llais cadarn a rheolaeth go iawn
- Cefnogi ein gilydd
- Diogelwch
- Parch
- Adfer ac ailsefydlu
- Addasu i amgylchiadau newydd
- Sefydlogrwydd
- Symlrwydd
- Proffesiynoldeb

Mae'r rhain wedi eu llywio gan drafodaethau gyda rhanddeiliaid a dadleuon yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac mewn mannau eraill ers i *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru* gael ei gyhoeddi. Maent yn bodoli ochr yn ochr â thystiolaeth y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, adolygiad Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol i oedolion[2], ein Hadolygiad o Ddiogelu[3] a chyngor a thrafodaethau'r Grŵp Arweiniad Cenedlaethol, y Fforwm Partneriaeth a Phanel y Dinasyddion. Mae'r cyfan yn asgwrn cefn i'n hachos dros newid.

Mae'r dystiolaeth hon, a'r broses o'i hystyried drwy'r broses graffu genedlaethol ar y Bil, wedi llywio a llunio cynnwys y Ddeddf. Mae'r cam nesaf, datblygu'r rheoliadau a'r codau ymarfer neu'r canllawiau statudol, wedi ei lywio gan gyfraniadau strategol allweddol fel *Mwy na Geiriau*, ein Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol[4], a *Galluogi Cymru, a* chan dystiolaeth a gafwyd drwy grwpiau technegol a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol. Mae'r grwpiau hyn wedi edrych ar ddarpariaethau'r Ddeddf, a'r polisi sy'n sail i'r rhain, yn fanwl, a rhoi cyngor i swyddogion ar sut y dylai'r rheoliadau a'r codau ymarfer neu ganllawiau statudol gael eu llunio er mwyn cyflawni

[2] Gweler **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**
[3] http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/reports/advisory/?lang=cy
[4] http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/words/?lang=cy

nodau'r Ddeddf a, thrwy hyn, gyflawni gofynion *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu.* Mae'r broses hon wedi sicrhau amrywiaeth o gyfraniadau gwerthfawr y mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi eu defnyddio i ddatblygu'r rheoliadau, codau ymarfer a chanllawiau statudol drafft a oedd wedi'u cwmpasu gan yr ymgynghoriad ar gyfres un ac a gwmpesir gan yr ymgynghoriad hwn.

## Y cynigion

## Rhan 9 – Partneriaeth a chydweithrediad

Pwrpas Rhan 9 yw sicrhau bod Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd, ynghyd â phartneriaid eraill, i gynllunio gwasanaethau, gofal a chymorth integredig a sicrhau eu bod yn cael eu darparu er mwyn diwallu anghenion pobl yn eu hardal leol yn y ffordd orau.

Y bwriad yw gwella canlyniadau a llesiant pobl trwy wella'r modd y mae sefydliadau'n gweithio mewn partneriaeth ac yn cydweithredu. Nod arall yw gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y gwasanaethau a ddarperir.

Bydd y pwerau gwneud rheoliadau'n cael eu defnyddio i sicrhau bod strwythurau ac adnoddau priodol yn eu lle i'w gwneud yn bosibl darparu gwasanaethau integredig i ymateb yn effeithiol i'r asesiad o'r boblogaeth ar y cyd. Bydd y pwerau gwneud rheoliadau'n ei gwneud yn bosibl sefydlu trefniadau partneriaeth a byrddau partneriaeth, yn ogystal â sefydlu cronfeydd cyfun. Bydd y rheoliadau hefyd yn nodi'r gofyniad i sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd a'r trefniadau ar gyfer atgyfeiriadau at y timau hyn.

Bydd y rheoliadau'n nodi y bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu sefydlu ar y sail ganlynol:

- Bwrdd Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac awdurdodau lleol Caerdydd a Bro Morgannwg.
- Bwrdd Rhanbarthol Cwm Taf – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ac awdurdodau lleol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.
- Bwrdd Rhanbarthol Gwent – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.
- Bwrdd Rhanbarthol y Canolbarth a'r Gorllewin – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Bwrdd Iechyd addysgu Powys ac awdurdod lleol Powys.
- Bwrdd Rhanbarthol Gogledd Cymru – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac awdurdodau lleol Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam.

- Bwrdd Rhanbarth Bae'r Gorllewin – Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ac awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

Bydd trefniadau partneriaeth yn cael eu sefydlu rhwng Byrddau Iechyd Lleol a'r priod awdurdodau lleol yn eu hardal.

Bydd y rheoliadau hefyd yn nodi aelodaeth y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel a ganlyn:

(a) O leiaf un aelod etholedig o awdurdod lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;
(b) O leiaf un aelod o'r Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;
(c) Y sawl a benodwyd yn gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o dan adran 144 o'r Ddeddf mewn perthynas â phob awdurdod lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth lleol, neu ei gynrychiolydd enwebedig;
(d) Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol, neu ei gynrychiolydd enwebedig;
(e) O leiaf un person sy'n cynrychioli buddiannau'r trydydd sector yn yr ardal a wasanaethir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;
(f) O leiaf un person sy'n cynrychioli buddiannau'r sector annibynnol yn yr ardal a wasanaethir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;
(g) Un lleygwr a benodwyd gan Weinidogion Cymru drwy benodiad cyhoeddus.

Gall y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gyfethol pobl eraill i fod yn aelodau o'r bwrdd fel y bo'n briodol.

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol baratoi adroddiad sy'n nodi i ba raddau y mae amcanion y bwrdd wedi cael eu cyflawni. Bydd angen i hwn gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru.

Bydd y canllawiau statudol yn nodi'r gofyniad i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol flaenoriaethu gwaith i integreiddio gwasanaethau mewn perthynas â'r canlynol:

- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor.
- Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd.
- Anableddau dysgu.
- Plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu afiechyd.
- Gofalwyr.

Hefyd bydd angen i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol bennu meysydd blaenoriaeth eraill lle mae'n ofynnol bod â gwasanaethau integredig i ymateb yn effeithiol i'r asesiad o'r boblogaeth ar y cyd.

Mae'r Cod Ymarfer mewn perthynas ag Eiriolaeth (Tudalen 10) yn nodi'r gofynion ar gyfer mynediad at wasanaethau a chymorth eirioli. Wrth ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth, bydd angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol

sicrhau eu bod yn gallu ymateb i'r gofynion o ran eiriolaeth ar gyfer yr holl unigolion, ochr yn ochr â'r grwpiau penodol a nodir uchod. Mae'r Cod Ymarfer ar Eiriolaeth yn rhoi cyngor pellach ar y ffactorau allweddol sy'n effeithio ar unigolion a'u hanghenion am gymorth penodol.

Mae'r Cod Ymarfer ar Ran 2 yn nodi'r gofynion mewn perthynas â darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth. Bydd angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth yn cael eu cynnig mewn modd sy'n hygyrch ac yn addas ar gyfer anghenion eu poblogaeth. Dylai awdurdodau lleol arwain ar gytuno, gyda phartneriaid rhanbarthol, pa elfennau o wasanaethau y dylid eu datblygu ar sail genedlaethol, ranbarthol a lleol.

Lle mae comisiynu gwasanaethau o fudd i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol fel ei gilydd, dylent gydweithio i ystyried ai modelau busnes dielw eraill fydd yn cwrdd orau ag anghenion llesiant eu poblogaeth leol. Mae'r Cod Ymarfer ar Ran 2 yn cynnwys cyngor pellach ar hybu mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector.

Bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn pennu'r strwythurau mwyaf priodol ar gyfer sicrhau bod y gwasanaethau integredig hyn yn cael eu darparu. Gallai hyn gynnwys sefydlu grwpiau rheoli neu weithredol, yn ogystal â thimau integredig ar gyfer meysydd gwasanaeth penodol. Bydd angen datblygu cytundebau ysgrifenedig ar gyfer unrhyw drefniadau partneriaeth sy'n golygu dirprwyo swyddogaethau.

Mewn perthynas â chronfeydd cyfun, mae'r rheoliadau'n darparu ar gyfer sefydlu cronfeydd cyfun i gefnogi'r broses o ddarparu'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd a hefyd mewn perthynas â darparu gofal a chymorth ar gyfer pobl mewn cartrefi gofal. Hefyd bydd angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried a sefydlu cronfeydd cyfun eraill fel y bo'n briodol.

## Dogfennau ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich sylwadau a'ch barn ar y dogfennau allweddol canlynol:

- Ceir crynodeb mwy manwl o'n cynigion yn y **Crynodeb Gweithredol** yn **Atodiad A**.
- Canllawiau Drafft ar Gydweithrediad a Phartneriaeth: Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (**Atodiad B**)
- Drafft o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 (**Atodiad C**)

Ceir ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad isod.

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

## Cydweithrediad a Phartneriaeth

**1. Ydych chi'n cytuno ag aelodaeth arfaethedig y byrddau partneriaeth rhanbarthol?**

| Cytuno | ☐ | Tueddu i gytuno | ☐ | Tueddu i anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

A fyddech cystal â darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol fel y bo angen i ategu eich ymateb – gan awgrymu unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau at yr aelodaeth arfaethedig.

**2. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer cronfeydd cyfun?**

| Cytuno | ☐ | Tueddu i gytuno | ☐ | Tueddu i anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Nodwch os oes unrhyw feysydd eraill y dylid eu hystyried, gan amlygu'r un maes blaenoriaeth allweddol.

**3. Ydych chi'n cytuno â'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer byrddau partneriaeth rhanbarthol:**

- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor.
- Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd.
- Anableddau dysgu.
- Plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu afiechyd.
- Gofalwyr.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno | ☐ | Tueddu i gytuno | ☐ | Tueddu i anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ |

Nodwch os oes unrhyw feysydd eraill y dylid eu hystyried, gan amlygu'r un maes blaenoriaeth allweddol.

**4. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion mewn perthynas â gwasanaethau integredig cymorth i deuluoedd?**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno | ☐ | Tueddu i gytuno | ☐ | Tueddu i anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ |

Eglurwch pam os gwelwch yn dda.

**5. Ydych chi'n cytuno y bydd y cynigion yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl ac yn gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau?**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno | ☐ | Tueddu i gytuno | ☐ | Tueddu i anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ |

Nodwch ble y dylid cymryd camau gweithredu pellach.

## Arall

**Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn deall a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon ynglŷn â rhan 9 yn effeithio ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Dyma'r nodweddion gwarchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.**

6. **Ydych chi’n credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?**

7. **Ydych chi’n credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?**

8. **Bydd ailgydbwyso'r system gofal a chymorth i gyflawni'r fframwaith cyfreithiol newydd yn galw am ailflaenoriaethu adnoddau. Beth yw'r camau allweddol sydd angen eu cymryd i gyflawni hyn?**

9. **Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy'n benodol, defnyddiwch y lle gwag hwn i roi gwybod inni amdanynt.**

| | |
|---|---|
| **Mae’n bosibl y bydd yr ymatebion i’r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi, naill ai ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech inni gadw’ch ymateb yn gyfrinachol, ticiwch y blwch.** | |